# Grŵp Cyswllt Cymunedol Parc Ynni Waun Hesgog

## Dydd Iau 22 Ionawr 2026

### Presenoldeb:

**Presenol**

- Eluned Lewis (EL) – Rheolwr Buddsoddi Cymunedol, Bute Energy
- Kadun Rees (KR) – Cydlynydd Materion Allanol, Bute Energy
- Sophie Jones (SJ) – Rheolwr Prosiect, Bute Energy
- Catrin Davies (CD) – Cynghorydd Sir
- Rhodri Davies (RhD) – Cynghorydd Sir
- Dafydd Jones (DJ) – Cyngor Cymuned Blaenrheidol
- Huw Morris (HM) – Cyngor Cymuned Blaenrheidol
- Jacq Brill (JB) – Cyngor Cymuned Ysgubor y Coed
- Elen Williams (EW) – Cyngor Cymuned Cadfarch
- Siôn Pennant (SP) – Cyngor Cymuned Ceulan a Maesmawr

**Ymddiheuriadau**

*Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.*

### Trosolwg o'r agenda

1. Croeso a chyflwyniadau
2. Ymddiheuriadau
3. Aelodaeth y CLG
4. Cylch Gorchwyl (ToR)
5. Cadeirydd
6. Diweddariadau prosiect

7. Sesiwn holi ac ateb
8. Materion cymunedol
9. Unrhyw fater arall
10. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf

## Trafodaethau a nodiadau

### 1. Croeso a chyflwyniadau

*Croesawodd KR bawb i'r cyfarfod, a chyflwynodd pawb eu hunain, gan fynd o gwmpas y bwrdd.*

### 2. Diben y Grŵp Cyswllt Cymunedol

*Cyflwynodd EL bwrpas y Grŵp Cyswllt Cymunedol (gweler sleidiau'r Cylch Gorchwyl)*

### 3. Aelodaeth y Grŵp Cyswllt Cymunedol

*Cynhaliwyd trafodaeth ar aelodaeth y CLG*

- Cytunwyd y byddai'r Grŵp Cyswllt Cymunedol yn hoffi gwahodd cynrychiolwyr o grŵp ehangach o gynghorau cymuned.
- Nododd CD y dylai grŵp y Floodees gael ei gynrychioli yn y Grŵp Cyswllt Cymunedol. Cytunodd SJ i gwrdd â'r grŵp cyn y Grŵp Cyswllt Cymunedol nesaf a'u gwahodd i ymuno â chyfarfod nesaf y Grŵp Cyswllt Cymunedol.
- Nododd KR y gall aelodau gael eu gwahodd yn arbennig i drafod eitem benodol ar yr agenda mewn cyfarfod, ond efallai na fydden nhw'n awyddus, neu na fyddai'n berthnasol i'r grŵp penodol ymuno â phob cyfarfod o'r Grŵp Cyswllt Cymunedol.
- Cytunodd yr aelodau i feddwl am grwpiau eraill i'w gwahodd i'r Grŵp Cyswllt Cymunedol nesaf.

**Camau gweithredu**

- **KR:** I wahodd grŵp Floodee i'r cyfarfod nesaf.
- **PAWB:** Meddwl am grwpiau a sefydliadau eraill i'w gwahodd i'r cyfarfod

## 4. Cylch gorchwyl

*Aeth EL drwy'r Cylch Gorchwyl, heb ddim sylwadau na gwelliannau gan yr aelodau.*

- Nodwyd mai cyfarfodydd hybrid o Dal-y-bont sydd orau. Bydd y grŵp yn penderfynu a ddylid mynd i rywle arall bob yn ail mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 5. Cadeirydd

*Cytunodd y grŵp i ofyn i Bute Energy gadeirio'r cyfarfodydd; fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei adolygu mewn cyfarfod o'r Grŵp Cyswllt Cymunedol yn y dyfodol.*

## 6. Diweddariadau prosiect

*Cafwyd sesiynau Holi ac Ateb drwy gydol y cyfarfod, gyda diweddariadau am y prosiect ac ateb i gwestiynau.*

## 7. Sesiwn holi ac ateb

*Cynhaliwyd sesiwn holi ac ateb grŵp.*

- Cwestiwn: Pam mae'r tyrbinau'n cael eu gosod ar dir amaethyddol yn hytrach nag ar diroedd coedwigaeth Cyfoeth Naturiol Cymru?

  Dywedodd EL fod ffiniau'r safle yn dynodi'r tir y mae gan Bute Energy gytundebau ar ei gyfer ar hyn o bryd a bod lleoliadau'r tyrbinau o fewn y ffiniau hyn. Nid yw blociau coedwigaeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhan fawr o'r cynnig hwn. Nodwyd hefyd y gall gweithgarwch amaethyddol barhau o gwmpas y tyrbinau. Nododd SJ fod rhan fach o'r safle ar dir Cyfoeth Naturiol Cymru.

- Cwestiwn: Fyddwch chi'n mynd at y safle o'r dwyrain neu o'r gorllewin?

  Nododd SJ mai o'r dwyrain y mae'r fynedfa debygol i'r safle; fodd bynnag, mae opsiynau ar gyfer mynd i mewn iddo o'r brifforDD

gyhoeddus yn dal i gael eu harchwilio gydag ymgynghorydd trafnidiaeth y prosiect.

- Cwestiwn: Beth yw'r cysylltiad gyda'r grid?

  Dywedodd SJ y bydd y safle'n cysylltu â gwifrau Efyrnwy Frankton Green Gen Cymru. Ychwanegodd SJ y bydd Green Gen Cymru'n datblygu cysylltiad grid rhwng Parc Ynni Waun Hesgog a gwifrau Efyrnwy Frankton. I gael rhagor o wybodaeth: https://greengencymru.com/

- Cwestiwn: Pam fod yr ynni'n mynd i lifo i Groesoswallt?

  Esboniodd KR fod y rhan fwyaf o'r ynni a gynhyrchir gan y math hwn o seilwaith ledled gwledydd Prydain yn llifo drwy'r Grid Cenedlaethol, a hynny oherwydd y ffordd mae'r Grid Cenedlaethol yn gweithio. Ychwanegodd KR fod gan Lywodraeth Cymru dargedau i gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy yng Nghymru, sy'n galw am gynnydd o ran seilwaith ynni. Ychwanegodd EL y bydd 20% o'r gronfa budd cymunedol yn cael ei neilltuo ar gyfer prosiectau ynni cymunedol lleol.

- Cwestiwn: Ydy Bute Energy yn pwyso i gael seilwaith gwell ar gyfer y grid yng Nghymru?

  Nododd EL fod Green Gen Cymru wedi'i greu fel ffordd o uwchraddio seilwaith grid y canolbarth, fydd yn cynnwys peilonau a pholion pren.

- Cwestiwn: Oni fyddai modd lleoli'r parc ynni yn nes at Groesoswallt, ac oni fyddai modd cysylltu â grid arall sy'n bodoli eisoes?

  Atebodd EL fod Bute yn asesu ardaloedd sy'n addas ar gyfer ynni gwynt ar y tir ac wedi nodi safle Waun Hesgog oherwydd ei addasrwydd ar gyfer datblygu ynni gwynt ar y tir. Nododd EL hefyd fod rhwydwaith presennol y grid yn y canolbarth yn llawn ac felly bod angen gwifrau newydd i'r grid os ydyn ni am gysylltu prosiectau ynni adnewyddadwy â'r Grid Cenedlaethol.

- Cwestiwn: Allwch chi esbonio pwy yw Bute Energy?

  Rhoddodd KR drosolwg o'r busnes, gan gynnwys buddsoddiad gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru a Phartneriaid Seilwaith Copenhagen.

- Cwestiwn: Fydd y gronfa budd cymunedol (CBF) yn cael ei chyfyngu i ardal benodol?

  Esboniodd EL yr ymagwedd buddsoddi cymunedol, ac na fydd terfyn daearyddol llym o ran ble bydd y cyllid yn mynd. Nododd EL fod y tîm wedi bod yn cwrdd â sefydliadau lleol i weld beth yw'r blaenoriaethau buddsoddi cymunedol ac y byddan nhw'n parhau i wneud hynny.

- Cwestiwn: Fyddai hi'n bosib i'r awdurdod lleol ddosbarthu'r gronfa budd cymunedol, gan ei fod yn swm mawr i gael ei reoli gan grŵp bach?

  Esboniodd EL y bydd y gronfa budd cymunedol i gyd yn cael ei gweinyddu drwy Sefydliad Elusennol Corfforedig (CIO) sydd newydd ei sefydlu, fydd yn gweithredu ar lefel genedlaethol ac yn atebol i Gomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr. O dan y Sefydliad Elusennol Corfforedig cenedlaethol, bydd panel lleol yn cael ei sefydlu ar gyfer pob parc ynni, unwaith i'r caniatâd gael ei roi ar gyfer y parc ynni dan sylw a'n bod ni'n gwybod yn sicr y bydd cyllid budd cymunedol yn dod i'r ardal. Mae Bute Energy wedi rhoi cryn ystyriaeth i'r broses a'r trefniant fydd yn sicrhau y bydd y cyllid o'r parc ynni ar ôl iddo ddechrau cynhyrchu wedi'i glymu'n gyfreithiol i'r parc ynni a'r Sefydliad Elusennol Corfforedig am oes gyfan y cyfnod cynhyrchu.

- Cwestiwn: Allwch chi ddarparu iawndal i drigolion?

  Esboniodd EL nad yw hyn yn arfer safonol ac nad dyna'r ymagwedd bresennol; fodd bynnag, y panel lleol fydd yn penderfynu ar ddosbarthiad y gronfa budd cymunedol.

- Cwestiwn: Beth fydd yn digwydd adeg datgomisiynu, a phetai Bute yn mynd i'r wal?

  Nododd SJ y bydd cynllun datgomisiynu yn cael ei gyflwyno, a bod rhaid datgomisiynu'r safle o fewn amserlen y cytunwyd arni, waeth pwy yw'r perchennog, ar ôl oes y cais cynllunio.

- Cwestiwn: Fydd unigolion yn cael gostyngiad ar ynni, neu ryw ffordd o weld yr arian eu hunain?

Nododd EL y bydd pob penderfyniad ynghylch cyllid a blaenoriaethau lleol yn cael ei drafod gan y panel lleol cyn i'r Sefydliad Elusennol Corfforedig gytuno'n ffurfiol arno. Mae Bute Energy yn awyddus i glustnodi 25% o gyllid budd cymunedol ar gyfer costau byw ac ynni cymunedol sy'n ffordd fwy cynaliadwy o leihau biliau ynni; fodd bynnag, mae enghreifftiau o ostwng biliau y gallem gyfeirio atynt pe bai'r panel lleol yn Waun Hesgog yn dymuno mynd ar drywydd o'r fath.

- Cwestiwn: Oes unrhyw dir comin?

  Dywedodd SJ nad oes tir comin yn y cynllun ar hyn o bryd.

- Cwestiwn: Beth yw'r amserlen ar gyfer y broses gynllunio?

  Dywedodd SJ fod y prosiect wrthi'n adolygu'r rhaglen ac y bydd yn penderfynu a fydd y prosiect yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) neu'n Brosiect Seilwaith Arwyddocaol (SIP), penderfyniad fydd yn effeithio ar yr amserlenni. Unwaith y bydd penderfyniad, bydd amserlen y prosiect ar y wefan yn cael ei diweddaru ar sail hynny.

- Cwestiwn: Oes unrhyw dir yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig?

  Nododd SJ fod darn bach o'r tir yn rhan o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ond y bydd yn cael ei osgoi yn y broses adeiladu.

- Cwestiwn: Allwch chi esbonio beth yw DNS?

  Esboniodd SJ fod y prosiect yn cael ei gyfri'n Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol oherwydd ei faint a'r capasiti cynhyrchu. Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol neu DNS yw'r drefn gynllunio sydd wedi bod ar waith ar gyfer y mathau hyn o brosiectau yn ystod y blynyddoedd diwethaf; fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno system gynllunio newydd yn ddiweddar, sef Prosiect Seilwaith Arwyddocaol (SIP). Nododd KR mai un gwahaniaeth allweddol fydd amserlenni prosiectau, gyda'r SIP yn debygol o fod yn broses ychydig yn hirach.

- Cwestiwn: Pam mae'r tyrbinau ar ben y mynyddoedd yn hytrach nag yn y dyffrynnoedd fel tyrbinau ffermwyr?

Nododd KR fod arolygon wedi eu cynnal a'u bod yn parhau, ac mai dyna sy'n pennu'r llefydd gorau ar gyfer ynni gwynt ar y tir ac felly'n pennu ble byddai'r safle/tyrbinau'n cael eu lleoli.

- Cwestiwn: Ai dim ond astudiaeth pen desg sydd, neu oes yna brosesau monitro eraill?

  Dywedodd SJ fod amrywiaeth o astudiaethau wedi'u cynnal ac i'w cynnal, sy'n cynnwys astudiaethau bwrdd gwaith a gwahanol arolygon ar y safle.

- Cwestiwn: Allwch chi roi gwybod i ni faint o bobl gymerodd ran yn yr arolwg digidol?

  KR i ganfod nifer yr ymatebwyr ac adrodd yn ôl yn y Grŵp Cyswllt Cymunedol nesaf.

- Cwestiwn: Beth yw'r pellter lleiaf sy'n ofynnol oddi wrth dai?

  Dywedodd SJ mai 700 metr yw'r isafswm.

- Cwestiwn: Allen ni greu cyfleusterau ynni cinetig fel prosiect ynni cymunedol?

  Nododd EL ei bod yn debygol mai prosiectau solar ar doeau fydd y rhan fwyaf o brosiectau ynni cymunedol, ond nid yn ddieithriad. Bydd opsiynau ynni cymunedol eraill yn cael eu hystyried hefyd, a bydd asesiad yn cael ei gynnal i nodi cyfleoedd yn lleol.

- Cwestiwn: Fydd yna rwydwaith ffyrdd ar y safle?

  Nododd SJ y bydd llwybrau mynediad ar draws y safle, ac er mwyn lliniaru unrhyw bryderon ynghylch llifogydd, bydd strategaeth draenio ac asesiad o ganlyniadau llifogydd yn cael eu cynnal.

- Cwestiwn: Oes yna fawn ar y safle?

  Nododd SJ fod peth mawndir ac eglurodd yr ymagwedd cam wrth gam er mwyn lleihau unrhyw ddifrod i fawn. Bydd mawn yn cael ei asesu ar y

Bute Energy Cymuned

safle, a bydd gwybodaeth yn cael ei hamlinellu yn y Datganiad Amgylcheddol.

- Cwestiwn: Fydd yna effaith ar dwristiaeth?

  Atebodd KR fod ymchwil bresennol yn dangos mai ychydig iawn o effaith sydd ar dwristiaeth, gydag achosion o fwy o dwristiaeth mewn rhai safleoedd ynni gwynt ar y tir. Ychwanegodd KR y bydd cynllun hamdden hefyd yn cael ei greu, fydd yn nodi unrhyw gyfleoedd i gynyddu hamdden ar y safle, drwy bethau fel uwchraddio llwybrau troed a darparu mynediad ar gyfer marchogaeth ceffylau. Nododd aelod arall fod llety gwyliau ger fferm ynni gwynt ar y tir wahanol gerllaw wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn dilyn y datblygiad.

Camau gweithredu

- **KR:** I ddarganfod faint o boblogaeth sydd o fewn 5km a 10km i'r safle
- **KR:** Adrodd yn ôl ar nifer y bobl a atebodd yr arolwg digidol yn ystod yr ymgynghoriad anstatudol
- **KR:** Anfon dolenni i wefan y prosiect
- **KR:** Diweddaru amserlen gwefan y prosiect

## 8. Materion cymunedol

- Nodwyd bod pryder penodol gan drigolion ger Cwm Einion a Thal-y-bont ynghylch llifogydd. Dywedodd SJ y bydd hi'n trefnu cyfarfod â grŵp y Floodees yn fuan.

## 9. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf

**Dyddiad:** 13 May

**Amser:** 19:00-20:30

**Lleoliad:** Neuadd Coffa Talybont

**Sesiwn yn cau.**

Camau gweithredu

• KR i ddarganfod beth yw'r boblogaeth o fewn 5km a 10km o'r safle

• KR i adrodd yn ôl ar nifer y bobl a atebodd yr arolwg digidol yn ystod yr ymgynghoriad anstatudol.

• KR i anfon dolenni i wefan y prosiect at y Grŵp Cyswllt Cymunedol

• SJ i ddiweddaru amserlen gwefan y prosiect.

• Pawb i awgrymu aelodau i'w gwahodd i'r cyfarfod

## Camau gweithredu o'r cyfarfod

| Cam gweithredu | Pwy |
|---|---|
| **Invite the Floodees to the next meeting** | KR |
| **Darganfod beth yw'r boblogaeth o fewn 5km a 10km o'r safle** | KR |
| **Adrodd yn ôl ar nifer y bobl a atebodd yr arolwg digidol yn ystod yr ymgynghoriad anstatudol.** | KR |
| **Anfon dolenni i wefan y prosiect at y Grŵp Cyswllt Cymunedol** | KR |
| **Diweddaru amserlen gwefan y prosiect.** | SJ |
| **Awgrymu aelodau i'w gwahodd i'r cyfarfod** | PAWB |